

Summary note of meeting - 19 May 2021

Attendees

- Clare Marx, GMC Chair (Chair)
- Sophie Brookes, GMC Assistant Director Corporate Directorate
- Steve Burnett, GMC Council Member
- Iona Collins, BMA Cymru
- Darren Griffiths, Audit Wales
- Mair Hopkin, Academy of Medical Royal Colleges Wales
- Chris Jones, Welsh Government
- Paul Jones, Swansea Medical School
- Robert Khan, GMC Assistant Director of Public Affairs and National Offices
- Phil Kloer, Hywel Dda Health Board
- Des Kitto, Board of CHCs
- Push Mangat, HEIW
- Charlie Massey, GMC Chief Executive
- Sara Moseley, GMC Wales National Head
- Stephen Riley, Cardiff Medical School
- Neil Roberts, GMC Director of Resources
- Peter Saul, Academy of Medical Royal Colleges Wales
- Suzanne Shale, GMC Council Member
- Keshav Singhal, BAPIO Wales
- Manel Tippett, GMC Policy and External Affairs Manager (notes)

Welcome and Chair's Introduction

- 1 The Chair welcomed several new attendees, including Sara Moseley, the new Head of GMC Wales. She reflected that the virtual meetings have enabled us to continue important conversations and thanked members for attending.

Review of Previous Actions

- 2 An update on actions from the last meeting 20 October 2020 was provided and included:
 - Meetings with several stakeholders to share our data on the register to help inform workforce and the Race Equality Action Plan

- Continued support for doctors through our educational sessions in particular our Welcome to UK Practice (WtUKP) sessions
- Regular engagement with Responsible Officers to consider their systems for referring doctors to our fitness to practice processes and to share information on standards.

Chief Executive Update

- 3** The GMC's Chief Executive provided a brief update on our work. He noted that:
- Our emergency powers, granted to support the response to Covid-19, are still in place with over 25,000 registered in the UK on the Temporary Emergency Register, including 1100 in Wales
 - There are greater challenges for overseas doctors coming into the country and we must consider this when implementing the Wales Workforce Strategy
 - We welcome the Department of Health and Social Care (England) (DHSC) consultation, *Regulating Healthcare Professionals, Protecting the Public*, which will allow greater flexibility, particularly in our FtP processes
 - We continue to prepare to regulate MAPs who will become vital to the workforce challenges that we face.

Equality, diversity and inclusion

External view

- 4** Dr Philip Kloer, Executive Medical Director at Hywel Dda Health Board presented to the Forum the work undertaken by the health board to identify and address issues around equality, diversity and inclusion (ED&I).
- 5** After a series of listening exercises, the health board set up key groups including a BAME Group with representation on the Board, a staff grade, associate specialist, specialty doctor (SAS) group to review the SAS Charter, and a Task and Finish Group on bullying and harassment. They have also appointed an BME Independent Member to the board and a BME Assistant Medical Director.
- 6** Hywel Dda has also taken forward several initiatives, including piloting reverse mentoring and are rolling out bystander awareness training through collaboration with Swansea University. They are also reviewing disproportionate referrals to their disciplinary processes, factoring recruitment, induction and ongoing support.
- 7** The health board continues to listen and learn with opportunities for further collaboration to address discrimination and share good practice through upstream working and compassionate leadership.

GMC View

- 8** Neil Roberts highlighted the GMC's new ED&I ambitions to tackle long standing racial inequalities in disproportionate referrals and differential attainment. Outreach teams

are working with Responsible Officers to see how they can make workplaces more inclusive and supportive. The GMC has joined the Medical Schools Council's newly formed ED&I Alliance and we will require action plans from education and training bodies to ensure diversity is better reflected in all aspects of medical teaching and learning.

- 9 Neil also outlined our ambitions for the GMC to become a fairer organisation by establishing and publishing targets and measures for diversity in employment, recruiting and supporting BME staff, and providing inclusive leadership.
- 10 Sara Moseley reflected that Welsh Government has produced the Race Equality Action Plan for consultation that can be taken forward by the new Government and partners over the coming years. Some of the detailed actions in the Plan mirror our own ambitions for addressing inequalities in training and complaints made against BME staff.
- 11 Sara highlighted the importance of our educational sessions, particularly around Welcome to UK Practice, and how these will be tailored for a Welsh audience when we return to face-to-face training. She also signposted the Forum to the new *Good Conversations, Fairer Feedback* report, highlighting the link between feedback, wellbeing and cultural belonging and reminded members of our workforce data that can help in bringing forward the new workforce strategy.

Discussion

- 12 The Chair invited members of the Forum to discuss initiatives and activities in Wales that can facilitate joint working. Areas discussed included:
 - **Race Equality Action Plan:** The Welsh Government's proposed Plan encompasses all aspects of life and aims for Wales to become an anti-racist country. It cuts across the remit of all organisations represented at the Forum and there is an opportunity and appetite for joint working on key actions and outcomes.
 - **Upstream working:** Changes must come from the ground up, and issues addressed when concerns are first identified. Many grievances raised aren't clinical but personal in nature and can be resolved informally. The Forum heard of BAPIO's Memorandum of Understanding with Cardiff and Vale Health Board that provides direct intervention with experienced BAPIO advocates.
 - **Leadership:** We must embed positive and compassionate leadership principles that creates a culture for complaints to be raised and to tackle unconscious bias. The Forum recognised the work HEIW has taken forward with Michael West on embedding compassionate leadership principles in health boards.
 - **Better inductions:** Inductions are important for all new staff but particularly for those who come from abroad. The Forum recognised the importance of the GMC's WtUKP and there is appetite for the GMC to work with HEIW and health boards to tailor the sessions and roll them out across Wales.

- **Differential Attainment:** HEIW set up the DA Board in September, comprising several organisations including both Swansea and Cardiff universities. Those leading training programmes have DA in their job descriptions. The aim is to ensure that those at risk of DA can identify unfair treatment and behaviours early and are directed to HEIW's Professional Support Unit for additional support.
- **Data:** Good quality data enables evidence-based practices and policies. The GMC and others have a wealth of data that can be triangulated to support a more sustainable workforce. This is showcased by data on Differential Attainment and we are pleased that this is an action in the new Race Equality Action Plan.
- **SAS Doctors:** SAS doctors continue to experience constraints compared with consultants. The GMCs SAS and Locum doctor survey highlights these constraints and provides areas of best practice. The Forum identified areas for joint working around this, including the reinstating of HEIW's SAS group.

Executive Summary

- 13** The Chair offered her thanks to all Forum members, stating that the way we treat others transcends into the way we care for our patients and that better care for our patients comes from doctors who are better supported.
- 14** The Chair invited the Chief Executive to give a short summary of the discussion. He noted:
- The importance of the GMC's relevance in all four countries and the need for a bespoke approach to our working in Wales
 - The recognition of a genuine level of commitment to ED&I in Wales, demonstrated by the Race Equality Action Plan
 - Upstream working to improve moral issues around equality that will help better patient care and build a sustainable work force
 - Our commitment to our own targets, knowing that we can only achieve if we work with colleagues across the system.
 - SAS doctors and their concerns around lack of inclusion, support, and prospect and how we can address key issues swiftly by working with others.

Actions agreed for the GMC to:

- Respond to the Welsh Government consultation on the Race Equality Action Plan, providing our positions on data, differential attainment and dealing with concerns early.
- Share our data on SAS doctors with the new HEIW SAS Lead, NHS Employers, and the SAS Doctors Committee at the BMA Cymru. Use the data to inform

areas for collaboration to make improvements where possible, and highlight areas of good practice

- Broaden our engagement with groups representing minoritized communities, including the new BAME Forum at the BMA Cymru, to understand the key issues and discuss how we can best support
- Improve the quality of inductions, taking lessons learned from the Fair to Refer report, working collaboratively with HEIW and Health Boards to deliver and expand localised Welcome to UK Practice sessions across Wales.
- Share our briefing with Forum members on Regulatory Reform.

15 Date of next Wales UKAF meeting: **Wednesday, 20 October 2021.**

Fforymau Cyngori'r DU - Cymru

Nodyn crynodeb o gyfarfod - 19 Mai 2021

Presennol

- Clare Marx, Cadeirydd GMC (Cadeirydd)
- Sophie Brookes, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyfarwyddiaeth Gorfforaethol y GMC
- Steve Burnett, Aelod o'r Cyngor y GMC
- Iona Collins, BMA Cymru
- Darren Griffiths, Archwilio Cymru
- Mair Hopkin, Academi Colegau Meddygol Brenhinol Cymru
- Chris Jones, Llywodraeth Cymru
- Paul Jones, Ysgol Feddygol Abertawe
- Robert Khan, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Materion Cyhoeddus a Swyddfeydd Cenedlaethol y GMC
- Phil Kloer, Bwrdd Iechyd Hywel Dda
- Des Kitto, Bwrdd y Cyngorau Iechyd Cymunedol
- Push Mangat, AaGIC
- Charlie Massey, Prif Weithredwr y GMC
- Sara Moseley, Pennaeth Cenedlaethol Cymru y GMC
- Stephen Riley, Ysgol Feddygol Caerdydd
- Neil Roberts, Cyfarwyddwr Adnoddau y GMC
- Peter Saul, Academi Colegau Meddygol Brenhinol Cymru
- Suzanne Shale, Aelod o'r Cyngor y GMC
- Keshav Singhal, BAPIO Cymru
- Manel Tippett, Rheolwr Polisi a Materion Allanol y GMC (nodiadau)

Croeso a Chyflwyniad y Cadeirydd

- 16** Croesawodd y Cadeirydd sawl mynychwr newydd, gan gynnwys Sara Moseley, Pennaeth newydd GMC Cymru. Gwnaeth hi'r sylw fod y cyfarfodydd rhithiol wedi'n galluogi i barhau sgysiau pwysig a diolchodd i aelodau am fynychu.

Adolygiad o Weithredoedd Blaenorol

- 17** Cafodd diweddariad ar weithredoedd o'r cyfarfod diwethaf 20 Hydref 2020 ei ddarparu ac roedd yn cynnwys:
- Cyfarfodydd â sawl rhanddeiliad i rannu'n data ar y gofrestr i helpu hysbysu'r gweithlu a'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hil
 - Cymorth parhaol i feddygon trwy'n sesiynau addysgol yn enwedig ein sesiynau Croeso i Ymarfer y DU (WtUKP)
 - Ymgysylltu rheolaidd â Swyddogion Cyfrifol i ystyried eu systemau ar gyfer atgyfeirio meddygon at ein prosesau addasrwydd i ymarfer ac i rannu gwybodaeth ar safonau.

Diweddariad y Prif Weithredwr

- 18** Darparodd Prif Weithredwr y GMC ddiweddariad cryno ar ein gwaith. Nododd fod:
- Ein pwerau brys, wedi'u dyfarnu i gynorthwyo'r ymateb i Covid-19, yn dal mewn grym gyda dros 25,000 wedi'u cofrestru yn y DU ar y Gofrestr Frys Dros Dro, gan gynnwys 1100 yng Nghymru
 - Mae heriau mwy i feddygon o dramor yn dod i mewn i'r wlad ac mae'n rhaid i ni ystyried hyn wrth weithredu Strategaeth Gweithlu Cymru
 - Rydym yn croesawu ymgynghoriad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Lloegr) (DHSC), *Regulating Healthcare Professionals, Protecting the Public*, fydd yn caniatáu hyblygrwydd helaethach, yn enwedig yn ein prosesau addasrwydd i ymarfer
 - Rydym yn parhau i baratoi MAPau fydd yn dod yn hanfodol i'r heriau gweithlu a wynebwn.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Golwg allanol

- 19** Cyflwynodd Dr Philip Kloer, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol ym Mwrdd Iechyd Hywel Dda y gwaith a ymgwymerwyd gan y bwrdd iechyd i adnabod a mynd i'r afael â materion ynghylch cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (ED&I) i'r Fforwm.
- 20** Ar ôl cyfres o ymarferion gwranddo, sefydlodd y bwrdd iechyd grwpiau allweddol gan gynnwys Grŵp BAME â chynrychiolaeth ar y Bwrdd, graddfa staff, arbenigwr cyswllt, grŵp meddygon arbenigedd (SAS) i adolygu'r Siarter SAS, a Grŵp Gorchwyl a Gorffen

ar fwlio ac aflonyddu. Maen nhw hefyd wedi penodi Aelod Annibynnol BME i'r bwrdd a Chyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol BME.

- 21 Mae Hywel Dda wedi symud sawl cynllun ymlaen, gan gynnwys treialu mentora o chwith ac maen nhw'n cyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth gwyliedydd trwy gydweithrediad â Phrifysgol Abertawe. Maen nhw hefyd yn adolygu atgyfeiriadau anghymesur i'w prosesau disgyblaethol, gan ffactoreiddio recriwtio, ymsefydlu a chymorth parhaus.
- 22 Mae'r bwrdd iechyd yn parhau i wrando a dysgu gyda chyfleoedd am ragor o gydweithio i fynd i'r afael â gwahaniaethu a rhannu ymarfer da trwy weithio trwy'r gadwyn ac arweinyddiaeth drugarog.

Barn y GMC

- 23 Amlygodd Neil Roberts uchelgeisiau newydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y GMC i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau hiliol hirsefydlog mewn atgyfeiriadau anghymesur a chyrhaeddiad gwahaniaethol. Mae timau allgymorth yn gweithio gyda Swyddogion Cyfrifol i weld sut maen nhw'n gallu gwneud gweithleoedd yn fwy cynhwysol a chefnogol. Mae'r GMC wedi ymuno â Chynghrair Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Cyngor Ysgolion Meddygol sydd newydd ei ffurfio a bydd angen cynlluniau gweithredu arnom o gyrff addysg a hyfforddi i sicrhau bod amrywiaeth yn cael ei adlewyrchu'n well ym mhob agwedd o addysgu a dysgu meddygol.
- 24 Amlinellodd Neil hefyd ein huchelgeisiau i'r GMC ddod yn sefydliad tecach trwy sefydlu a chyhoeddi targedau a mesurau ar gyfer amrywiaeth mewn cyflogaeth, recriwtio a chynorthwyo staff BME, a darparu arweinyddiaeth gynhwysol.
- 25 Gwnaeth Sara Moseley y sylw fod Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ar gyfer ymgynghoriad sy'n gallu cael ei ddwyn ymlaen gan y Llywodraeth newydd a phartneriaid dros y blynyddoedd i ddod. Mae rhai o'r gweithredoedd manwl yn y Cynllun yn ddrych o'n huchelgeisiau ni ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn hyfforddiant a chwynion wedi'u gwneud yn erbyn staff BME.
- 26 Amlygodd Sara bwysigrwydd ein sesiynau addysgol, yn enwedig o gwmpas Croeso i Ymarfer y DU, a sut fydd y rhain yn cael eu teilwra i gynulleidfa Gymreig pan fyddwn yn dychwelyd i hyfforddi wyneb yn wyneb. Cyfeiriodd hi'r Fforwm hefyd at yr adroddiad newydd *Good Conversations, Fairer Feedback*, sy'n amlygu'r cysylltiad rhwng adborth, llesiant a pherthyn diwylliannol ac atgoffodd aelodau o ddata ein gweithlu sy'n gallu helpu dod â'r strategaeth gweithlu newydd yn ei blaen.

Trafodaeth

- 27 Gwahoddodd y Cadeirydd aelodau o'r Fforwm i drafod cynlluniau a gweithgareddau yng Nghymru sy'n gallu hwyluso gweithio ar y cyd. Roedd meysydd a drafodwyd yn cynnwys:
 - **Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hil:** Mae Cynllun arfaethedig Llywodraeth Cymru yn cwmpasu pob agwedd o fywyd ac mae'n anelu at gael Cymru i fod yn wlad wrth-hiliol. Mae'n croestorri cylch gorchwyl pob sefydliad a gynrychiolir yn y

Fforwm ac mae cyfle ac archwaeth am weithio ar y cyd ar weithredoedd a deilliannau allweddol.

- **Gweithio o'r gwaelod:** Mae'n rhaid i newidiadau ddod o'r llawr i fyny, a mynd i'r afael â materion pan fydd pryderon yn cael eu nodi gyntaf. Nid yw llawer o gwynion a godir yn glinigol ond yn bersonol eu natur a gallant gael eu datrys yn anffurfiol. Clywodd y Fforwm am Femorandwm Dealltwriaeth BAPIO â Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro sy'n darparu ymyrraeth uniongyrchol gydag eiriolwyr profiadol BAPIO.
- **Arweinyddiaeth:** Mae'n rhaid inni sefydlu egwyddorion arweinyddiaeth gadarnhaol a thrugarog sy'n creu diwylliant i gwynion gael eu codi ac i fynd i'r afael â rhagfarn ddjarwybod. Cydnabu'r Fforwm y gwaith mae AaGIC wedi ei ddwyn ymlaen gyda Michael West ar sefydlu egwyddorion arweinyddiaeth drugarog mewn byrddau iechyd.
- **Sesiynau ymsefydlu gwell:** Mae sesiynau ymsefydlu'n bwysig i'r holl staff newydd ond yn enwedig i'r rheini sy'n dod o dramor. Cydnabu'r Fforwm bwysigrwydd WtUKP y GMC ac mae archwaeth i'r GMC weithio gydag AaGIC a byrddau iechyd i deilwra'r sesiynau a'u cyflwyno ledled Cymru.
- **Cyrhaeddiad Gwahaniaethol:** Sefydlodd AaGIC y Bwrdd Cyrhaeddiad Gwahaniaethol ym Medi, yn cwmpasu sawl sefydliad gan gynnwys prifysgolion Abertawe a Chaerdydd. Mae gan y rhai sy'n arwain rhaglenni hyfforddi Gyrhaeddiad Gwahaniaethol yn eu swydd ddisgrifiadau. Y nod yw sicrhau bod y rhai sydd mewn perygl o Gyrhaeddiad Gwahaniaethol yn gallu adnabod triniaeth ac ymddygiadau annheg yn gynnar ac yn cael eu cyfeirio at Uned Cymorth Proffesiynol AaGIC am gymorth ychwanegol.
- **Data:** Mae data o ansawdd da yn galluogi ymarfer a pholisïau seiliedig ar dystiolaeth. Mae gan y GMC ac eraill gyfoeth o ddata sy'n gallu cael ei driongli i gynorthwyo gweithlu mwy cynaliadwy. Mae hyn yn cael ei arddangos mewn data ar Gyrhaeddiad Gwahaniaethol ac rydym yn falch fod hyn yn weithred yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hil newydd.
- **Meddygon SAS:** Mae meddygon SAS yn parhau i brofi cyfyngiadau o gymharu ag ymgynghorwyr. Mae arolwg meddygon SAS a Locwm y GMC yn amlygu'r cyfyngiadau hyn ac yn darparu meysydd ymarfer gorau. Adnabu'r Fforwm feysydd ar gyfer gweithio ar y cyd o gwmpas hyn, gan gynnwys ailsefydlu grŵp SAS AaGIC.

Crynodeb Gweithredol

- 28** Cynigiodd y Cadeirydd ei diolchiadau i holl aelodau'r Fforwm, gan ddatgan bod y ffordd rydym yn trin eraill yn trosglwyddo i'r ffordd rydym yn gofalu am ein cleifion a bod gwell gofal i'n cleifion yn dod gan feddygon sydd wedi'u cefnogi'n well.
- 29** Gwahoddodd y Cadeirydd y Prif Weithredwr i roi crynodeb byr o'r drafodaeth. Nododd:
- Y pwysigrwydd o berthnasedd y GMC ym mhob un o'r pedair gwlad a'r angen am ymagwedd unigryw at ein gwaith yng Nghymru
 - Y gydnabyddiaeth o lefel wirioneddol o ymrwymiad i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yng Nghymru, wedi'i ddangos gan y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hil
 - Gweithio o'r gwaelod i wella materion moesol ynghylch cydraddoldeb fydd yn helpu gwella gofal i gleifion ac yn adeiladu gweithlu cynaliadwy
 - Ein hymrwymiad i'n targedau ein hunain, gan wybod mai dim ond trwy weithio gyda chydweithwyr ar draws y system y gallwn gyflawni
 - Meddygon SAS a'u pryderon ynghylch diffyg cynhwysiant, cymorth a rhagolwg a sut y gallwn fynd i'r afael â materion allweddol yn gyflym trwy weithio gydag eraill.

Gweithredoedd a gytunwyd i'r GMC i:

- Ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hil, gan ddarparu ein safbwyntiau ar ddata, cyrhaeddiad gwahaniaethol a delio â materion yn gynnar.
- Rhannu ein data ar feddygon SAS â'r Arweinydd SAS AaGIC newydd, Cyflogwyr GIG, a Phwyllgor Meddygon yr SAS yn BMA Cymru. Defnyddio'r data i ffurfio meysydd ar gyfer cydweithio i wneud gwelliannau lle'n bosibl, ac amlygu meysydd ymarfer da
- Ehangu ein hymgysylltu â grwpiau sy'n cynrychioli cymunedau lleiafrifedig, gan gynnwys y Fforwm BAME newydd yn BMA Cymru, i ddeall y prif faterion a thrafod sut y gallwn gynorthwyo orau
- Gwella ansawdd sesiynau cynefino, yn dysgu gwersi o'r adroddiad Fair to Refer, cydweithio â AaGIC a Byrddau Iechyd i ddarparu ac ehangu sesiynau lleol Croeso i Ymarfer y DU ledled Cymru.
- Rhannu ein briff ag aelodau'r Fforwm ar Ddiwygio Rheoleiddiol.

- 30** Dyddiad cyfarfod nesaf UKAF Cymru: **Dydd Mercher, 20 Hydref 2021.**